

Pryd mae angen arolwg ecolegol?

Lle mae'n debygol iawn y bydd eich cynnig cynllunio yn effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth bwysig, bydd yr awdurdod cynllunio yn gofyn am wybodaeth am y rhywogaethau / cynefinoedd a'r graddau y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio arnynt cyn rhoi caniatâd cynllunio.

Bydd y math o asesiad sydd ei angen yn amrywio.

Isod mae **rhai** enghreifftiau o nodweddion mwyaf cyffredin safleoedd a geir yn y ceisiadau gan ddeiliaid cartrefi a mân gynlluniau cynllunio eraill lle gallai fod angen arolwg ecolegol.

Nodweddion safle:

- Gwaith ar do/ trawsnewid llofft
- Dymchwel adeiladau / strwythurau presennol ar y safle
- Tynnu coed / llystyfiant o ardd
- Tynnu gwrychoedd / effaith ar wrychoedd
- Estyniadau
- Gwaith ar garejys / adeiladau allanol
- Unrhyw newidiadau i lefelau'r ddaear
- Adeiladu strwythurau cadw
- Unrhyw effaith ar goed / adeiladau gyda nodweddion a allai fod yn gartref i ystlumod sy'n clwydo ar / wrth ymyl y safle.
- Unrhyw waith i goetir ar / yn agos at y safle
- Unrhyw waith ar gyrsiau dŵr ar / yn agos at y safle



A Resilient Greater Gwent



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Image by Montevideo from Pixabay

SuSafonau Arolygon

Dylai arolygon gael eu cynnal gan ecolegwyr â chymwysterau priodol sydd â phrofiad o gynnal yr arolwg sy'n ofynnol. Dylai arolygon fod yn gyfredol a dilyn methodoleg a gydnabyddir.

Wrth geisio ymgynghorydd ecolegol byddem yn cynghori penodi aelod o CIEEM (Chartered Institute of Ecology and Environmental Management) i sicrhau eich bod yn ymgysylltu â gweithiwr proffesiynol cwbl gymwys.

Oherwydd natur newidiol rhywogaethau a chynefinoedd, efallai y bydd angen ailadrodd arolygon ecolegol os ystyrir bod gwybodaeth mewn arolwg wedi darfod.

Gwybodaeth Bellach

Gellir gweld canllawiau cyn ymgeisio yma:

Ffurflenni Cynllunio | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Canllawiau ecolegol:

Canllaw i arolygon ecolegol a'u pwrpas:

<https://cieem.net/resource/guide-to-ecological-surveys-and-their-purpose/>

Canllaw i ddeiliaid cartrefi ar ddewis ecolegydd:

<https://cieem.net/resource/a-householders-guide-to-engaging-an-ecologist/>

Cyfeiriadur Ymarferwyr CIEEM Cofrestredig:

<https://events.cieem.net/RegisteredPracticeDirectory/Registered-Practice-Directory.aspx>

Arolygon Ystlumod – Canllaw i Ddeiliaid Cartrefi:

<https://cieem.net/resource/what-to-expect-from-a-bat-survey-a-guide-for-uk-homeowners/>

Canllawiau Cynllunio

Polisi Cynllunio Cymru 11

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol 'Bioamrywiaeth wrth Gynllunio'

<https://www.rtpi.org.uk/media/1563/biodiversityinplanningpracticeadvice2019.pdf>

Cyn i chi wneud cais...

**Canllawiau cynllunio a
bioamrywiaeth ar gyfer
ceisiadau gan ddeiliaid
cartref a mân geisiadau eraill.**



**Eich canllaw i'r gofynion i amddiffyn
a gwella bywyd gwylt yn eich cais
cynllunio.**

Sut mae bioamrywiaeth yn gysylltiedig â Chynllunio?

Bioamrywiaeth yw 'amrywiaeth bywyd o bob math'.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ystyried bioamrywiaeth wrth asesu ceisiadau cynllunio. Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 yn nodi bod yn rhaid i 'awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu na ddylai datblygu achosi unrhyw golled sylweddol o ran cynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol a rhaid iddo ddarparu budd net ar gyfer bioamrywiaeth '(cyfeiria para 6.4.5 at hyn). Mae'r polisi hwn a pholisïau dilynol ym Mhennod 6 o BCC 11 yn ymateb i Adran 6, Ddeddf Dyletswydd yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Lle mae'n debygol y gallai cynnig cynllunio effeithio ar rywogaethau neu gynefinoedd a warchodir, bydd angen gwybodaeth o arolygon ar y cyngor er mwyn asesu effeithiau'r cynigion. Bydd angen darparu'r wybodaeth hon cyn gwneud penderfyniad cynllunio.

Beth yw 'budd net bioamrywiaeth'?

Yn syml, mae'r cysyniad o fudd net bioamrywiaeth yn syml, yn golygu gadael bioamrywiaeth mewn cyflwr gwell o lawer nag o'r blaen.

Pwrpas y canllaw hwn

Bydd cyngor cyn ymgeisio ynghylch cynllunio yn cynnig arweiniad ar amseriadau unrhyw arolygon gofynnol, ynghyd â chynghor ar fesurau lliniaru a gwella. Mae ystyried bioamrywiaeth yn gynnar cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio er budd eich cais er mwyn atal oedi a chostau cysylltiedig. Mae'r canllaw hwn yn darparu cynghor sylfaenol i unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno cais cynllunio, er mwyn eich helpu i lynu at ddeddfwriaeth bywyd gwyllt a helpu'r bywyd gwyllt ar eich stepen drws. Dylai lefel y gwelliant sydd ei angen fod yn gymharol â graddfa'r datblygiad arfaethedig. Dylai'r holl fanylion ar gyfer gwelliannau arfaethedig gael eu cyflwyno ymlaen llaw fel rhan o'ch cais cynllunio.

Gwelliannau i Fioamrywiaeth

Hyd yn oed os yw eich cynnig cynllunio yn annhebygol o effeithio'n niweidiol ar fioamrywiaeth bresennol, fel awdurdod lleol mae'n ddyletswydd arnom o hyd i fod yn rhagweithiol a hyrwyddo gwelliannau o ran bioamrywiaeth. Un o'r ffyrdd y gallwn wella cysylltedd ecolegol a sicrhau budd net bioamrywiaeth yw trwy sicrhau bod pob cais cynllunio gan ddeiliaid cartrefi yn cynnwys ystyriaeth i wella bioamrywiaeth. Mae'r rhestr isod yn dangos rhai o'r ffyrdd y gellir ymgorffori'r rhain mewn cynigion gan ddeiliaid cartrefi.



- Blychau/briciau ystlumod



- Briciau gwenoliaid



- Briciau gwenyn



- Tŵr gwenyn

- Plannu cloddiau brodorol
- Lleiniau bywyd gwyllt
- Blychau adar (Adar y to/gwenoliaid ac ati.)
- Tyllau/twneli draenogod